**Crynodeb o hunan arfarniad o Addysg Grefyddol yn Ysgol __y Ganllwyd___ Cynradd**

(Gweler canllawiau pynciol Ffeil Hunan Arfarnu CYNNAL 2005)

| **Cwestiwn 1 : Pa mor dda mae dysgwyr yn cyflawni?** |
|---|
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a dadansoddiad o asesiadau athrawon. |
| **Barn gryno am brif gryfderau cyflawniad y dysgwyr Gradd: 1** |
| Mae'r safonau'n dda iawn yn y ddau gyfnod allweddol gyda'r plant yn deall ac yn ymateb yn bositif i'r profiadau gynigir. |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw dros y ddwy flynedd nesaf?** |
| Cynnal y safonau presennol i'r dyfodol. Ymgorffori'r hyn a gynigir yn y Cynfod Sylfaen a Chwricwlwm 2008 i gynlluniau gwaith yr ysgol gan weithredu'r newidiadau ar lawr y dosbarth. |

**Datblygiad ysbrydol, moesol, cymdeithasol a diwylliannol.**

| **Cwestiwn 2 : Pa mor dda mae profiadau dysgu yn diwallu anghenion a diddordebau dysgwyr a'r gymuned ehangach?** |
|---|
| • Mae hunan arfarniad yn seiliedig ar arsylwadau gwersi, arfarniad o waith disgyblion, cyfweliadau â disgyblion a gwerthusiad o gyfnodau addoli ar y cyd a gwersi ABCh.<br>• Disgwylir cyfeiriad yma at ddatblygiad ysbrydol a moesol y disgyblion. |
| **Barn gryno am ansawdd y ddarpariaeth Gradd : 2** |
| Caiff y plant brofiadau amrywiol a chyfoethog.<br>Fe'u cyflwynir i grefyddau'r byd.<br>Anogir y plant i fod yn sensitif i amgylchiadau rhai llai ffodus na hwy eu hunain.<br>Cesglir arian tuag at nifer o achosion da – e.e Cymorth Cristnogol, Bâd Achub, Ambiwlans Awyr.<br><br>Cynhelir gwasanaethau boreol dyddiol gan roddi sylw i straeon o'r Beibl ac i agweddau moesol. Cynhelir gwasanaethau mewn capeli lleol a chyngerdd Nadolig yn flynyddol. Daw gweinidogion lleol i arwain gwasanaethau yn wythnosol. Rhoddi'r sylw i AbaCH trwy gyfrwng gwersi a sesiynau trafod/amser cylch. |
| **Pa agweddau fydd yn derbyn sylw yr ysgol dros y flwyddyn nesaf?** |
| Bwriedir gweithredu canllawiau Ysgol Dina yn yr ysgol yn 2008-2009 yn dilyn mynychu hyfforddiant gan staff yr ysgol yn 2007-2008. |

| | |
|---|---|
| **Dyddiad cwbwlhau'r arfarniad:** | **Gorffennaf 2008** |
| **Arwyddwyd: Kerry Wyn Parry (Pennaeth)** | |